



Trafodaeth Caerffili – Dweud eich dweud!

Mae eich barn yn bwysig! Treuliwch amser yn ateb y cwestiynau isod fel y gallwn ni ddefnyddio'ch barn i helpu llywio ein penderfyniadau ni am y gyllideb a darparu gwasanaethau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dyddiad cau yr ymgynghoriad hwn yw 13 Chwefror 2022.

1. Gan ystyried popeth, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y gwasanaeth cyffredinol wedi'i ddarparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ystod y 12 mis diwethaf?

Bodlon iawn

☐

Gweddol fodlon

☐

Gweddol anfodlon

☐

Anfodlon iawn

☐

Ddim yn gwybod

☐

Blaenoriaethau'r Cyngor

2. Pan wnaethom ni ymgynghori â'n cymunedau ni flwyddyn yn ôl, fe ddywedoch chi mai'r gwasanaethau isod sydd bwysicaf i chi. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai'r rhain yw'r meysydd y dylai'r Cyngor eu blaenoriaethu o hyd wrth gynllunio gwasanaethau a chyllidebau ar gyfer 2022/23 a thu hwnt?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Diogelwch cymunedol	☐	☐	☐
Addysg ac ysgolion	☐	☐	☐
Cymorth ariannol a Threth y Cyngor	☐	☐	☐
Tlodi bwyd a darparu prydau ysgol am ddim	☐	☐	☐
Tai a digartrefedd	☐	☐	☐
Canolfannau hamdden	☐	☐	☐
Llyfrgelloedd	☐	☐	☐
Darparu gwasanaethau ar-lein	☐	☐	☐
Parciau a mannau gwyrdd	☐	☐	☐
Trafnidiaeth gyhoeddus	☐	☐	☐
Cynnal a chadw priffyrdd a ffyrdd	☐	☐	☐
Gofal cymdeithasol a gwasanaethau i bobl agored i niwed, pobl hŷn a phlant	☐	☐	☐
Glanhau'r strydoedd	☐	☐	☐
Goleuadau stryd	☐	☐	☐
Gwasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu	☐	☐	☐

3. Os ydych chi'n anghytuno ag unrhyw un neu ragor o'r blaenoriaethau yn y rhestr, nodwch pam:

4. Oes unrhyw flaenoriaethau allweddol ar goll o'r rhestr? Os ydych chi'n teimlo y dylai'r Cyngor fod yn blaenoriaethu gwasanaethau eraill, rhwch fanylion isod:

Tîm Caerffili

Mae'r rhaglen drawsnewid, Tîm Caerffili, yn golygu ail-lunio'r Cyngor ar gyfer y dyfodol. Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed i adolygu ein gwasanaethau, i ddiogelu'r rhai sydd eu hangen ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gan ein cymunedau ni yn seiliedig ar yr wybodaeth rydyn ni wedi'i chasglu eisoes. Rydych chi wedi dweud wrthym ni eisoes eich bod chi eisiau i ni wneud y canlynol:

- Adolygu gwasanaethau unigol a chanolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen ar gymunedau
- Ymgysylltu a chyfathrebu â chymunedau lleol ynghylch hyn, ymgynghori â chi, a gwrandao arnoch chi, i nodi'r hyn sydd ei angen arnoch chi
- Gwellu perthynas Cyngorwyr lleol â'n cymunedau ni
- Cynnwys gwirfoddolwyr cymunedol o ran cymryd cyfrifoldeb am faterion lleol
- Darparu mwy o wasanaethau ar-lein, lle bynnag y bo modd
- Lleihau ein hól troed carbon a darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n fwy ecogyfeillgar
- Datblygu hybiau cymunedol lle mae popeth mewn un lle (nid dim ond y Cyngor, ond sefydliadau partner hefyd)
- Gwellu cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus

5. Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill ar gyfer sut y gallem ni ddarparu gwasanaethau yn wahanol, a sut y gallem ni weithio gyda'n cymunedau ni i wneud hyn? Oes unrhyw beth arall y gallem ni fod yn ei wneud i ddiwallu anghenion presennol ein trigolion ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol?

Treth y Cyngor

Mae cynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23 yn cynnwys cynnydd arfaethedig o 2.5% yn Nhreth y Cyngor. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd wythnosol o 59c ar gyfer eiddo Band D ar gyfartaledd, a dyma'r cynnydd isaf ers 2017. Bydd y cynnydd hwn, ynghyd â'r cyllid gan Lywodraeth Cymru, yn caniatáu i'r Cyngor fuddsoddi cyfanswm o £10 miliwn mewn darparu gwasanaethau, gan gynnwys £6 miliwn ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i roi cymorth i'n trigolion mwyaf agored i niwed. Am ragor o fanylion, gweler yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar wefan y Cyngor.

6. Dewiswch un o'r opsiynau canlynol i roi gwybod i ni p'un sydd well gennych chi o ran Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Dewiswch un yn unig.

Rydw i'n cefnogi cynnydd o 2.5% yn Nhreth y Cyngor. Rydw i'n sylweddoli bod gan y Cyngor bwysau ariannol ychwanegol a bod galw cynyddol ar wasanaethau sydd angen buddsoddiad i alluogi'r Cyngor i barhau i roi cymorth i'n trigolion mwyaf agored i niwed. ☐

Rydw i'n cefnogi cynnydd llai yn Nhreth y Cyngor, ond rydw i'n derbyn y byddai hyn yn arwain at fuddsoddi llai mewn gwasanaethau. ☐

Rydw i'n cefnogi cynnydd o fwy na 2.5% yn Nhreth y Cyngor i alluogi'r Cyngor i fuddsoddi hyd yn oed yn fwy mewn darparu gwasanaethau a rhoi cymorth i'n trigolion mwyaf agored i niwed. ☐

Dydw i ddim yn cefnogi unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor, ond rydw i'n derbyn y byddai hyn yn golygu gostyngiad pellach o ran yr arian sydd ar gael i fuddsoddi mewn gwasanaethau. ☐

Os ydy'ch ymateb i unrhyw un neu ragor o'r cwestiynau yn yr arolwg hwn wedi'i ddylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) oherwydd unrhyw un neu ragor o'r canlynol – tarddiad ethnig, rhywedd, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, cred neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, laith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb dros ddibynyddion, neu oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch cartref yn aelod o'r lluoedd arfog, neu wedi bod yn aelod – rhowch fanylion isod:

Gwybodaeth amdanoch chi

Mae'r cwestiynau hyn yn ddewisol. Bydd eich ymateb yn ein helpu ni i sicrhau ein bod ni'n cyflawni sampl gynrychioliadol a bydd yn ein helpu ni i wirio a yw'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn diwallu anghenion ein holl gymunedau a thrigolion lleol.

Rydw i'n llenwi'r arolwg hwn:

- Fel un o drigolion y Fwrdeistref Sirol ☐
- Fel aelod etholedig lleol ☐
- Fel person busnes ☐
- Fel cynrychiolydd grŵp neu sefydliad y trydydd sector ☐
- Fel cynrychiolydd sefydliad arall yn y sector cyhoeddus ☐
- Fel aelod o staff ☐
- Arall, nodwch: _____ ☐

Fy nghod post yw: _____

Rydw i:

- Yn fenyw ☐
- Yn wryw ☐
- Arall, nodwch _____ ☐
- Gwell gen i beidio â dweud ☐

Beth yw eich dewis iaith?

- Saesneg ☐
- Cymraeg ☐
- Arall (gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain) ☐
- Os 'arall', nodwch: _____

Ydych chi o'r farn bod gennych chi anabledd?

- Ydw ☐
- Nac ydw ☐
- Gwell gen i beidio â dweud ☐

Beth yw eich oedran? _____

Beth yw eich tarddiad ethnig?

- Asiaidd ☐
- Du ☐
- Tsieineaidd ☐
- Cymysg ☐
- Gwyn ☐
- Arall, nodwch: _____ ☐
- Gwell gen i beidio â dweud ☐

Diolch am lenwi'r arolwg hwn.

Dychwelwch y ffurflen hon i'ch llyfrgell agosaf. Fel arall, gallwch chi ddychwelyd yr arolwg ac unrhyw sylwadau ychwanegol drwy'r post i: Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Uned Polisi Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG

Hysbysiad preifatrwydd: Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu. Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth, ewch i:

www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Privacy-Notice-Consultations-Surveys-cy.aspx